# Ordinhad 1 - Aelodau'r Brifysgol

1.1 Bydd y canlynol yn aelodau o'r Brifysgol:

(i) Swyddogion Prifysgol Abertawe, sef y Canghellor, y Dirprwy Gangellorion, y Trysorydd, yr Is-ganghellor, y Profost, y Dirprwy Is-gangellorion, y Cofrestrydd, a deiliaid y fath swyddi eraill y gall y Cyngor eu pennu o bryd i'w gilydd.

(ii) Aelodau Cyngor Prifysgol Abertawe.

(iii) Aelodau Senedd Prifysgol Abertawe.

(iv) Aelodau Llys Prifysgol Abertawe.

(v) Athrawon Emeritws Prifysgol Abertawe.

(vi) Athrawon Emeritws Prifysgol Cymru a oedd gynt yn aelodau staff o academaidd Coleg Prifysgol Abertawe neu Brifysgol Cymru, Abertawe.

(vii) Athrawon Er Anrhydedd ac eraill y dyfarnwyd teitlau er anrhydedd iddynt ym Mhrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru, Abertawe.

(viii) Pob unigolyn sydd â chontract cyflogaeth ysgrifenedig gyda Phrifysgol Abertawe.

(ix) Graddedigion Prifysgol Abertawe.

(x) Graddedigion Prifysgol Cymru a oedd gynt yn aelodau o Goleg Prifysgol Abertawe neu Brifysgol Cymru, Abertawe.

(xi) Y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau astudio ym Mhrifysgol Abertawe.

(xii) Yr holl aelodau lleyg a gyfetholwyd i bwyllgorau a sefydlwyd yn unol ag Ordinhad 7.

(xiii) Llywodraethwyr Er Anrhydedd a benodwyd gan Gyngor Prifysgol Abertawe.

1.2 Bydd yr aelod unigol yn parhau'n aelod o Brifysgol Abertawe cyhyd â bod un o'r amodau uchod wedi'i fodloni.

1.3 Nid oes unrhyw arwyddocâd cyfreithiol yn gysylltiedig ag aelodaeth Prifysgol Abertawe ac nid yw'n rhoi unrhyw hawliau, breintiau na rhwymedigaethau ac eithrio fel y'i nodir yn y Siarter a'r Statudau.